

Rhifyn 44: Gwanwyn/Haf 2003 Am ddim/Free

Cadwynn

Y cylchgrawn i siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg
The magazine for Welsh speakers and learners

Cyhoeddir 10,000 o CADWYN CYD
dair gwaith y flwyddyn fel arfer
Cyfle gwych i hysbysebu



Cystadleuaeth
Dysgwr y Flwyddyn
Gweler tud 3

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyd A.G.M
26 Gorffennaf 2003





Llywydd Anrhydeddus:
Yr Athro Bobi Jones

Cadeirydd
Mary Burdett-Jones
Is-gadeirydd
Kathryn Hughes
Trysorydd
Emyr-Wyn Francis
Ysgrifennydd Cyffredinol
Glyn Saunders Jones
Cadeirydd yr Is-bwyllgor
Marchnata a Chyhoeddiadau
Anne Parry

Rheolwr Swyddfa: Jaci Taylor (01970) 622143 e-bost: jct@aber.ac.uk

Trefnydd Gogledd Cymru: Rhodri Francis
01970 628599 e-bost: rhf@aber.ac.uk

Trefnydd De Cymru: Martin Davies
01554 776587 e-bost: davieswizlet@aol.com

Swyddogion Cyswllt Cyd

Môn a Sir Gaernarfon
Elfyn Morris Williams (01286) 831715

Gogledd-Ddwyrain Cymru (*Conwy, Dinbych, Sir y Fflint, Wrecsam*)
Ceredigion, Gogledd Powys/Meirionnydd.
Cysylltwch â Rhodri Francis, Trefnydd y Gogledd

Sir Gaerfyrddin a Phenfro
Dafydd Gwylon (01834) 813249 e-bost: Cydaro@btinternet.com

Morgannwg
Rhian James (01685) 877183/871002 e-bost: rhianlj@aol.com
Rhondda-Cynon-Taf, Merthyr Tudful, Penybont-ar-Ogwr, Bro Morgannwg heblaw am y Barri

De Powys a Gorllewin Morgannwg (*Ystradgynlais, Abertawe, Castell Nedd, Port Talbot, Treforys a Waunarlwydd.*)
Cysylltwch â Martin Davies, Trefnydd y De

De-Ddwyrain Cymru
Padi Phillips (02920) 312293 e-bost: padi@ntlworld.com
Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd ar Barri, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd

Swyddogion Dysgwyr yn y Mentrau

Ardal Menter Bro Teifi
Peter Moody (01559) 371097 e-bost: peter@vmoody.freeserve.co.uk
Ardal Menter Bro Myrddin
Tina Charles (01267) 236037 e-bost: clem@tinacharles.fsnet.co.uk
Ardal Menter Bro Dinefwr
Lisa Mahoney (01558) 825336 e-bost: menter@sirgar.gov.uk
Ardal Menter Iaith Llanelli
Martin Davies (01554) 776587 e-bost: davieswizlet@aol.com

Swyddfa Cyd, 10 Maes Lowri, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AU
Ffôn/ffacs: (01970) 622143
e.bost: cyd@aber.ac.uk **y we:** www.aber.ac.uk/cyd

Mae **CADWYN Cyd** yn ymddangos dair gwaith y flwyddyn.
Dyddiadau cyhoeddi arferol: **Mawrth; Mehefin; Tachwedd**

Mae Cyd yn elusen gofrestrdedig (rhif 518371)

Cefnogir gwaith Cyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg

e.bost: cyd@aber.ac.uk

GAIR O'R GADAIR



Ydych chi wedi sylwi ar y ffurf newydd ar ein henw? Rydym wedi penderfynu defnyddio 'Cyd' fel yn 'ar y cyd' er mwyn pwysleisio mai prosiect ar y cyd rhwng y Cymry Cymraeg a'r dysgwyr yw ychwanegu nifer sylweddol iawn o siaradwyr at y gymuned Gymraeg. Gall dysgwyr o oedolion wneud y gwahaniaeth rhwng bywyd a marwolaeth i'r iaith.

Cymry Cymraeg! Mae eich angen chi arnom. Rydym eisiau gwirfoddolwyr i fod yn gyfeillion llythyr, ffôn, ac e-bost (e-bytis), yn ogystal â phobl i ddod i gyfarfodydd o'n grwpiau ni i sgwrsio gyda dysgwyr. Ni fyddai'n cymryd llawer o'ch amser i roi help llaw i ddsygrwr. Mae'r dysgwyr yn haeddu help oherwydd eu bod nhw'n gweithio mor galed i feistrol'r iaith. Maen nhw hefyd yn aml iawn yn bobl ddi-ddorol!

Os na fedrwrch sbario amser, oes gennych ychydig o arian i'w sbario? Mae angen arian arnom, yn arbennig ar gyfer Ysgoloriaeth Dan Lynn James. Dyma ysgoloriaeth a sefydlwyd i goffâu tiwtor ysbrylededig a oedd yn un o sylfaenwyr Cyd. Eleni cawsom geisiadau gan 11 o bobl, a dim ond £250 i'w rhoi! Rhoddir arian bob blwyddyn i bobl sydd am fynd ar gwrs i wella eu Cymraeg. Rydym yn dewis pobl sy'n mynd i wneud cyfraniad fel rhan o'r gymuned Gymraeg. Cewch weld mewn man arall yn y rhifyn hwn pwy oedd yn llwyddiannus.

Rydym yn hynod ddiolchgar i Gangen Cyd Aberystwyth am eu haelioni yn rhoi arian tuag at gyhoeddi'r rhifyn hwn o *Cadwyn*. Nid dyma'r tro hwn iddynt roi i weithgareddau Cyd yn genedlaethol, ac rydym yn gwerthfawrogi eu cymorth yn fawr.

Dysgwyr! Daliwch ati! Beth am anelu at ennill 'Dysgwr y Flwyddyn'? Darllenwch yr erthygl ar Teresa Cody, sydd yn mynd ymlaen i rownd derfynol y gystadlaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Dyna esiampl i chi! Llongyfarchiadau, Teresa!

A WORD FROM THE CHAIR

Have you noticed the new form of our name? We have decided to use 'Cyd' as in 'ar y cyd' (together, jointly, cooperatively) to emphasize that adding a very substantial number of speakers to the Welsh-language community is a joint project between Welsh speakers and learners. The adult learners may mean the difference between life and death for the language.

Welsh speakers! We need you. We need volunteers to be pen friends, phone friends, and e-mail friends (e-butties) as well as people to come to meetings of our groups and talk to learners. It wouldn't take much of your time to give a helping hand to a learner. Learners deserve help because they work so hard to master the language. They are also very often interesting people!

If you can't spare the time, have you got a little money to spare? We need money, especially for the Dan Lynn James Scholarship. This is a scholarship set up to commemorate an inspired tutor who was one of the founders of Cyd. This year we had applications from 11 people, and only £250 to give! We give money each year to people who want to go on a course to improve their Welsh. We choose people who are going to make a contribution as part of the Welsh-language community. You can see elsewhere in this number who was successful.

We are very grateful to the Aberystwyth Branch of Cyd for giving money towards the publication of this issue of Cadwyn. This is not the first time they have given towards Cyd national activities, and we greatly appreciate their support.

Learners! Keep at it! What about aiming to win 'Learner of the Year'? Read the article on Teresa Cody, who is going on to the final round of the competition in the National Eisteddfod this year. There's an example for you! Congratulations, Teresa!

Mary Burdett-Jones

CATRIN JONES A'I CHWMNI

Meleri Wyn James (Gwasg Gomer, £6.95)
Adolygiad gan Teresa Cody

Catrin Jones a'i Chwmni yw'r dilyniant (*sequel*) i'r nofel ddiweddar gan Meleri Wyn James, *Catrin Jones yn Unig*. Mae'r nofel yn gwneud i chi gydymdeimlo (*sympathize*) â'r ferch fodern hon. Mae hi'n hyfryd cael rhywbeth ysgafn (*light*) fel hon i'w ddarllen yn Gymraeg. Rho dy draed lan a theithio trwy'r tudalennau, sy'n hawdd eu darllen i ddsygrwr o bob safon a siaradwyr rhugl. Yn bendant (*definitely*), rhywbeth i'r merched, a rhywbeth i'r dynion sydd eisiau gwybod beth mae merched yn ei feddwl!

NEWYDDION

PENODIADAU NEWYDD – Y TÎM RHEOLI NEWYDD



Jaci Taylor – Rheolwr Swyddfa

Rhodri Francis – Trefnydd Y Gogledd

Martin Davies – Trefnydd Y De

Yn dilyn ailstrwythuro (*restructuring*) mae gennym dîm o dri yn rheoli gwaith Cyd. Mae Jaci yn darparu gwasanaethau canolog Cyd. Mae Martin a Rhodri yn cydlynu (*coordinate*) gwaith Swyddogion Cyswllt Cyd ac yn datblygu cyfleodd newydd i ddysgwyr a Chymry Cymraeg gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.



Lisa Mahoney

Cafodd Lisa ei phenodi yn Swyddog Dysgwyr yn ardal Menter Bro Dinefwr ddiwedd mis Ionawr 2003. Dyma hi ar ddiwrnod ei phriodas yn edrych yn hyfryd ac yn hapus iawn. Anfonwn ein dymuniadau gorau i Lisa a'i gŵr Scott.

Peter Moody

Cafodd Peter ei benodi yn Swyddog Dysgwyr yn ardal Menter Bro Teifi ar y 5ed (pumed) o Chwefror 2003.

Tina Charles

Llongyfarchiadau i Tina ar raddio y llynedd. Mae Tina Charles yn Swyddog Dysgwyr yn ardal Menter Bro Myrddin. Mae Tina hefyd yn diwtor Cymraeg i Oedolion.

CYSTADLEUAETH DYSGWR Y FLWYDDYN

Mae gan Cyd reswm da i ddatlu gan fod tri aelod o Cyd wedi cymryd rhan yn rownd gynderfynol y gystadleuaeth 'Dysgwr y Flwyddyn', sef Dr Arne Pommerening, Almaenwr sy'n un o Ymddiriedolwyr Cyd ac



Teresa Cody

sy'n gweithio fel darlithydd ym Mhrifysgol Cymru Bangor; Andrew Lambert, a sefydlodd gyda help ei dad a'i fam yr Amgueddfa Gymreig o Gelfyddyd Fodern ym Machynlleth ac sy'n weithgar gyda changen Cyd Machynlleth; a Teresa Cody, sy'n dilyn cwrs gradd mewn Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth. Llwyddodd Teresa Cody, sy'n enedigol o Birmingham ac o dras Gwyddelig, i gyrraedd y rownd derfynol a gynhelir ddydd Mercher, 6 Awst 2003 yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a'r Gororau.

Llongyfarchiadau Teresa a phob lwc i ti a dy gydgydstadleuwyr yn y rownd derfynol!

Cyd has a good reason to celebrate as three Cyd members took part in the semi-final of the 'Leaner of the Year' competition, Dr Arne Pommerening, a German who is one of Cyd's Trustees and who works as a lecturer in the University of Wales Bangor; Andrew Lambert who with the help of his mother and father established The Museum of Modern Art, Wales, in Machynlleth and who is active in the Machynlleth branch of Cyd; and Teresa Cody, who is pursuing a degree course in Celtic Studies at the University of Wales, Aberystwyth. Teresa, who was born in Birmingham to Irish parents, succeeded in securing a place in the final round which will be held on Wednesday the 6th of August 2003 in the National Eisteddfod of Wales Maldwyn and the Marches.

Congratulations Teresa and good luck to you and your fellow competitors in the final round!

Mae Arne a Teresa yn ddau o gyfranwyr rheolaidd *Cadwyn*. Gweler erthygl Arne ar y prosiect 'Geiriadur Termau Coedwigaeth' ar dudalen 10, ac adolygiad o'r llyfr *Catrin Jones a'i Chwmni* gan Teresa ar dudalen 2.

Arne and Teresa contribute articles regularly to Cadwyn. See Arne's article on the project 'Dictionary of Forestry Terms' on page 10, and Teresa's review of the book Catrin Jones a'i Chwmni on page 2.


yn helpu dysgwyr da i ddod yn fwy rhugl yn yr iaith

Holwch am fanylion y Cynllun Pambio.

11on 0197061337 | E-bost: ucac@thruval.com

BYWYD BETI BACH

gan Toby Driver





Cyd Dolgellau yng nghwmni
Mair Tomos Ifans


**GWEITHGAREDDAU I
DDYSGWYR A CHYMRY
CYMRAEG**

**ACTIVITIES FOR WELSH
LEARNERS AND WELSH
SPEAKERS**

gwales.com

**Dull syml o
chwilio ac
archebu llyfrau
ar y We**

www.gwales.com Myrwech i'w haddow!



18 Ionawr 2003

Diwrnod Hyfforddiant Cyd, Staff ac
Ymddiriedolwyr Cyd gyda Heather
Girling o Fairlawn Initiative Ltd



Cyd Tywyn yn dathlu'r Nadolig




Eisteddfod y Dysgwyr –
trefnwyd gan Fenter Iaith Sir Y Fflint



Cyd yn Cydio yn Lloegr –
Cangen newydd yn Rhydychen
Yr Athro Rees Davies (Cadeirydd) ar y chwith, yr Athro Robert Evans
(Trysorydd) yn y cefn, a Mary Howell-Price (Ysgrifennydd) ar ei chwith



Cyd Dinbych y Pysgod a Chilgetti
Yn mwynhau barbeciw yng Ngardd Averil Rees (ar y dde)



Pant-Y-Llyn, Llandybie

Grŵp Cyd dan arweiniad Robert Cullley (crys gwyn) gydag un o
naturiaethwyr Llanelli, Dic Davies (i'r dde o Robert)

**Gadewch i
Paul Robeson Ganu !**

ardangosfa
a llyfr
i ddechrau bywyd
Paul Robeson
a'i berthynas
â Chymra




16 MAI - 25 HYDREF 2003
Llanelli - 8.30 - 9.30

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Aberystwyth

09870 632601 | hel@llyfrgell.org.uk | www.llyfrgell.org.uk



GRWPIAU CYD NEWYDD

Here are some new opportunities for both Welsh learners and fluent Welsh speakers to socialize in Welsh. If you need help please phone the Cyd Office on 01970 622143 or send an e-mail to cyd@aber.ac.uk

GOGLEDD CYMRU

Yr Wyddgrug yn cwrdd yng Nghastell y Rhuthun ar ddydd Iau cyntaf pob mis
Wrecsam yn cwrdd yn nhafarn y Nags Head ar ddydd Mawrth cyntaf pob mis
Bae Colwyn/Bae Penrhyn yn cwrdd yn Hen Neuadd Penrhyn ar yr ail ar pedwerydd dydd Mercher o bob mis.

Y Rhyl yn cwrdd yn nhafarn y Dudley Arms ar yr ail ar pedwerydd dydd Mercher o bob mis

Dolgellau yn cwrdd yn nhafarn y Llong ar ddydd Iau olaf pob mis

Y Drenewydd yn cwrdd yn nhafarn y Sportsman ar ddydd Iau cyntaf pob mis
Y Trallwng yn cwrdd yn nhafarn y Raven ar y trydydd dydd Mawrth o bob mis

Llanfyllin yn cwrdd yn ngwesty'r Caen Valley ar yr ail ddydd Iau o bob mis
Llandrindod yn cwrdd yng nhafarn Y Llanerch ar y trydydd dydd Mawrth o bob mis

Llanfair-ym-Muallt yn cwrdd yn ngwesty'r Greyhound ar y trydydd dydd Mercher o bob mis

Trefyclo yn cwrdd yn nhafarn Y George & Dragon ar ddydd Mawrth cyntaf pob mis

Rhaeadr yn cwrdd yng ngwesty'r Crown ar ddydd Llun olaf pob mis.

Tregaron yn cwrdd yng ngwesty'r Talbot ar y trydydd dydd Iau o bob mis.

Ar y gweill

Mae yna gynlluniau i gychwyn grwpiau Cyd newydd yn mis Medi yn yr ardaloedd canlynol: Rhuthun, Dinbych, Bala, Bermo, Blaenau Ffestiniog, Aberareron, Aberteifi, Aberpennar.

DE CYMRU

Aberdaugleddau (Milford Haven)

Cwm Gwendraeth (Gwendraeth Valley)

Mae cyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg yn anffurfiol (*informally*), ac mae croeso i Gymry Cymraeg ymuno hefyd.

Manylion (details): Dafydd Gwylon ffôn/facs: 01834 813249

Crymych

Mae rhaglen ddifyr wedi ei pharatoi gan Cyd Bro'r Preselau. Mae'r Dysgwyr a Chymry yn cwrdd, fel arfer (*usually*) ar fore Gwener 1af y mis yn nhafarn y Crymych Arms, Crymych.

10 Gorffennaf 2003 – Mae'r aelodau o ardal Crymych yn mynd ar ymweliad â'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan (*Museum of Welsh Life at St Fagan*).

Rhydaman (Amanford)

Mae Cyd Rhydaman yn cwrdd bron bob wythnos, ac yn cael hwyl yn sgwrsio'n Gymraeg. Mae'r dysgwyr yn aml yn paratoi gweithgareddau (*activities*) eu hunain, ac mae eisiau siaradwyr Cymraeg i ymuno â'r grŵp hefyd.

Mwy o fanylion (more details) Rachel: 01269 823842 neu Jenny: 01269 591102

Adroddiad Cyd Castell Newydd Emlyn

Croesawyd Robert Davies, cynllunydd y gêm 'Disgrifio', a Dafydd Gwylon Swyddog Cyswllt Caerfyrddin a Phenfro gan Margaret, oedd yn cadeirio cyfarfod Tachwedd. Cafwyd hwyl a sbri yn eu cwmni, a'r Cymry Cymraeg yn cynnig ambell gyngor i'r dysgwyr. Daeth tîm Ken i'r brig yn y pen draw. Diolchwyd i Robert am noson ardderchog ac i Dafydd am ei gefnogaeth gan Mary Jane. Cynhaliwyd ein cinio Nadolig blynyddol yn ystod mis Rhagfyr yn y Crwban ar Arth Castell Newydd Emlyn, yng nghwmni difyr ffrindiau ac aelodau. Fe'n swynwyd fel arfer gyda datganiadau ar y delyn, oedd hefyd yn gyfeiliant i ganu carolau ar ôl y cinio. Tua diwedd y flwyddyn taenwyd cysgod du dros ardal eang o golli Robina Elis-Gruffydd yn dilyn damwain anghueol. Ar ddechrau noson y cinio cyflwynodd Marion O'Toole ddatganiad o 'Dafydd y Garreg Wen' er cof amdani ac mewn edmygedd o waith diflino ac anhunanol y 'Gymraes' hon. Er gwaetha absenoldeb sawl aelod oherwydd salwch cafwyd cyfarfod cyfeillgar iawn pan fu Keith, aelod ffyddlon y gangen, yn ein diddori ym mis cyntaf 2003 gyda sleidiau, hefyd yn adrodd cryn dipyn o hynt a helynt hanesyddol ardal Capel Iwan. Diolchodd Beti iddo am noson mor ddiddorol ac addysgiadol.

Margaret Holman

CYD LLANGRANNOG –
NOSON GYDA MERCHED Y
WAWR BRO CRANOGWEN

Bob blwyddyn, mae Merched y Wawr Bro Cranogwen yn gwahodd dysgwyr yr ardal i noson o hwyl. Mae'r dysgwyr yn teimlo'n swil ac yn nerfus, ac mae'r Cymry Cymraeg yn teimlo'n swil ac yn nerfus – ar y dechrau. Ond bob blwyddyn dyn ni'n cymysgu, yn siarad, yn dod i nabod ein gilydd, ac yn joio mas draw.

Eleni, daeth Jonathan Rees, prifathro Ysgol Penmorfa, i arwain y noson, ac mae'n amlwg ei fod e'n feistr ar drefnu hwyl. I dorri'r iâ ar y dechrau, roedd rhaid i ni ffurfio llinell ar draws y neuadd yn nhrefn yr wyddor – gan ofyn i bawb 'Beth yw'ch enw chi?' neu 'Pwy ych chi?' Wedyn, roedd rhaid i bawb ffindio tri pheth yn gyffredin gyda'r person nesa yn y llinell. Ar ôl cymysgu fel hyn, ffurfion ni bedwar tîm i gael cwis. Ond i Jonathan, doedd un cwis ddim yn ddigon. Na – roedd rhaid gwneud tri cwis a dau groesair ar yr un pryd! Prin wedi bennu â hyn i gyd ac ymlaen i'r peth nesa – canu, gyda Jonathan yn cyfeilio ar y ffidil ar gitar. Wedi'r canu, y dawnsio gwerin, eto i gyfeiliant y ffidil.

Ar ôl holl fwrwm gweithgareddau'r noson, a phawb erbyn hyn yn teimlo bod y swildod a'r nerfuswydd wedi diflannu, roedd hi'n amser cael paned o de, i flasu'r danteithion roedd y dysgwyr wedi'u paratoi, ac i siarad â ffrindiau newydd.

Diolch o galon i Ferched y Wawr am gynnal y noson, am y croeso cynnes gan y Llywydd Bethan Roberts, ac am gefnogaeth pawb, i Jonathan am drefnu'r gweithgareddau, ac i'r dysgwyr am ddod, ac am ddod â'r bwyd! Noson hyfryd i bawb.

Philippa Gibson

GEIRFA

hwyl	<i>fun</i>	croesair	<i>crossword (puzzle)</i>
swil	<i>shy</i>	bennu, dibennu	<i>to finish</i>
joio mas draw	<i>enjoy very much</i>	cyfeilio	<i>to accompany (music)</i>
prifathro	<i>headteacher</i>	cyfeiliant	<i>accompaniment</i>
arwain	<i>to lead</i>	bwrlwm	<i>excitement</i>
trefnu	<i>to arrange</i>	gweithgareddau	<i>activities</i>
torri'r iâ	<i>to break the ice</i>	danteithion	<i>delicious food</i>
yn gyffredin	<i>in common</i>	cefnogaeth	<i>encouragement</i>

e.bost: cyd@aber.ac.uk



**Cwis Cenedlaethol
CYD 2003**



Rowndiau lleol yn misoedd Mai, Mehefin, a Gorffennaf
Local rounds in the months of May, June, and July

Cwis i ddysgwyr a Chymry Cymraeg.
A quiz for Welsh Speakers and Welsh Learners

Hyd at 6 mewn tîm – rhaid bod o leiaf un person sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ac un person sy'n dysgu ym mhob tîm
Up to 6 in a team – there must be at least one fluent Welsh speaker and one learner in each team

Does dim rhaid i neb ateb cwestiwn yn unigol – gweithio fel tîm a chael tipyn o hwyl.
No one has to answer a question individually – work as a team and have loads of fun.

Trefnir rowndiau lleol ym mhob ardal yn ôl y galw.
Local rounds will be organised in every area according to demand.

Cynhelir y rownd derfynol am 2.00 y prynhawn, dydd Mercher 6 Awst 2003, ym Mhabell y Dysgwyr, Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a'r Gororau
The final will be held at 2.00 pm Wednesday 6 August 2003 in the Learners Tent on the National Eisteddfod field in Meifod, Powys

ffi cystadlu/competition fee: £1 y pen/each

Oeddech chi'n gwybod ...?

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- Agorwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Mai 1999. Dyma, yn ôl llawer o bobl, y diwrnod mwyaf hanesyddol i Gymru ers chwe chan mlynedd.
- Pam chwe chan mlynedd? Wel, yn 1404 sefydlodd Owain Glyndŵr ei senedd gyntaf ym Machynlleth. Cynhaliodd seneddau pellach yn Nolgellau, Harlech a Phennal.
- Bu llawer o drafod dros y blynyddoedd ynglŷn â hunanlywodraeth i Gymru. Er enghraifft, dechreuwyd Ymgyrch Senedd i Gymru gan Undeb Cymru Fydd yn 1949. Cyflwynwyd deiseb gyda 240,000 o lofnodion i'r Senedd yn Llundain yn 1956, ond yn ofer.
- Cynhaliwyd refferendwm yn 1979 ar gynigion ar gyfer datganoli yng Nghymru. 'Na' pendant oedd ateb y bobl.
- Daeth cyfle arall i gynnal refferendwm ar 18 Medi 1997. Y tro hwn cadarnhawyd y cynigion. Wedyn pasiodd y Senedd yn Llundain Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a arweiniodd at sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Cynhaliwyd yr etholiad cyntaf ar gyfer y Cynulliad newydd ar 6 Mai 1999. Mae gan y Cynulliad chwe deg o Aelodau etholedig (ACau).
- Cynhaliwyd cyfarfod llawn cyntaf hanesyddol y Cynulliad ddydd Mercher 12 Mai 1999, a chafodd Llywydd, Dirprwy Lywydd a Phrif Ysgrifennydd cyntaf y Cynulliad eu hethol gan yr Aelodau.
- Yn ddiweddarach dechreuwyd defnyddio'r term Prif Weinidog Cymru yn lle Prif Ysgrifennydd. Y Prif Weinidog presennol yw Rhodri Morgan AC.
- Y Llywydd yw Cadeirydd y Cynulliad ac mae'n gwneud swydd debyg i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin. Y Llywydd presennol yw'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC.
- Cartref y Cynulliad ers 1999 yw Tŷ Crucywel ym Mae Caerdydd, ond y mae cynllun ar y gweill i godi Siambr newydd gerllaw erbyn 2005.
- Y mae'r grym i basio deddfau newydd yn aros yn San Steffan ond mae gan y Cynulliad amrywiaeth mawr o gyfrifoldebau mewn llawer o feysydd – dim digon o gyfrifoldebau yn ôl rhai pobl a gormod yn ôl pobl eraill!
- Un o gyfrifoldebau'r Cynulliad yw noddï cyrff fel Bwrdd yr Iaith Gymraeg sydd yn ei dro yn noddï Cyd a mudiadau eraill sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg.
- Roedd ail etholiad cyffredinol Cymru eleni – ar dydd Iau, 1 Mai. Roedd gan bob etholwr **ddwy** bleidlais!
- Defnyddir y bleidlais gyntaf i ethol deugain Aelod lleol neu etholaethol yn yr un ffordd ag yr etholir Aelod Seneddol (AS).
- Defnyddir yr ail bleidlais i ethol ugain o Aelodau ychwanegol, fesul rhanbarth, i sicrhau bod nifer y seddi sydd gan bob plaid wleidyddol yn adlewyrchu'r gyfran o bleidleisiau a fwriwyd drostynt. Yr enw ar y math hwn o gynrychiolaeth gyfrannol yw'r System Aelodau Ychwanegol. Mae yna bump o ranbarthau etholiadol yn seiliedig ar ffiniau Etholaethau Senedd Ewrop a grëwyd yn 1994, ac mae pob rhanbarth yn anfon pedwar aelod i'r Cynulliad.

Profiad Grŵp Cyd Pontrhydygroes yn Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi y llynedd

Os oes grŵp lleol Cyd gyda chi, rhaid argymhell cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol os oes modd.

Dw i'n cofio aelod o gangen Cyd Pontrhydygroes, a oedd wedi dysgu Gymraeg ac erbyn hyn sy'n rhugl, yn dweud mai un peth a oedd wedi rhoi help mawr iddi hi oedd canu mewn côr Cymraeg. Roedd yn help mawr gyda ei hynganiad. Cafodd hi lawer o hwyl ac roedd hi'n cymdeithasu yn y Gymraeg.

Roedd ein profiad yn yr Eisteddfod yr un math o beth. Roedd yn gyfle da hefyd i'r grŵp a dw i'n meddwl bod mwy o deimlad o undod gyda ni yn awr o ganlyniad.

Penderfynon ni geisio am y gystadlueaeth cyd-lefaru i ddysgwyr. Y gerdd a oedd wedi'i gosod oedd 'Jemeima Niclas' gan Idwal Lloyd, ynglŷn ag arwres Glaniad y Ffrancod yn Abergwaun 1797.

Doedden ni ddim yn sicr i ddechrau am y syniad o lefaru, ac mae'n rhaid i mi ddweud ei bod hi'n help mawr i gael hyfforddwraig. Roedden ni'n lwcus iawn oherwydd bod Gwyneth, sydd â llawer o brofiad o actio a chyflwyno dramâu gyda'r ysgol leol ac o weithio gyda S4C, yn fodlon helpu ein hyfforddi ni. Felly ffurfion ni grŵp bach o chwech i roi cynnig arni.

GEIRFA

Cynulliad Cenedlaethol Cymru	<i>The National Assembly for Wales</i>
agorwyd	<i>opened</i>
y diwrnod mwyaf hanesyddol	<i>the most historic day</i>
ers chwe chan mlynedd	<i>for six hundred years</i>
sefydlodd	<i>established</i>
senedd(au)	<i>parliament(s)</i>
cynhaliodd	<i>be held</i>
trafod	<i>discuss</i>
hunanlywodraeth	<i>self-government</i>
ymgyrch	<i>campaign</i>
cyflwynwyd deiseb	<i>a petition was presented</i>
lofnodion	<i>signatures</i>
Llundain	<i>London</i>
yn ofer	<i>in vain</i>
cynigion	<i>proposals</i>
datganoli	<i>devolution</i>
pendant	<i>emphatic</i>
y tro hwn	<i>this time</i>
cadarnhawyd	<i>endorsed</i>
Deddf Llywodraeth Cymru	<i>Government of Wales Act</i>
etholiad	<i>election</i>
Aelodau etholedig	<i>elected Members</i>
Llywydd	<i>Presiding Officer</i>
dirprwy	<i>deputy</i>
Prif Ysgrifennydd	<i>First Secretary</i>
ethol	<i>elect</i>
diweddarach	<i>later</i>
Prif Weinidog	<i>First Minister (literally Prime Minister)</i>
Cadeirydd	<i>Chairman</i>
AC = Aelod Cynulliad	<i>AM = Assembly Member</i>
Lefarydd Tŷ'r Cyffredin	<i>Speaker of the House of Commons</i>
Arglwydd	<i>Lord</i>
Tŷ Crucywel	<i>Crickhowell House</i>
Bae Caerdydd	<i>Cardiff Bay</i>
Siambr	<i>Chamber</i>
gerllaw	<i>nearby</i>
grym	<i>power</i>
San Steffan	<i>Westminster</i>
amrywiaeth mawr	<i>a wide range</i>
cyfrifoldeb(au)	<i>responsibility(responsibilities)</i>
llawer o feysydd	<i>many areas</i>
noddï	<i>sponsor</i>
etholwr	<i>voter</i>
pleidlais	<i>a vote</i>
deugain	<i>forty</i>
lleol	<i>local</i>
etholaethol	<i>constituency (adjective)</i>
Aelod Seneddol (AS)	<i>Member of Parliament (MP)</i>
fesul rhanbarth	<i>on a regional basis</i>
adlewyrchu'r gyfran	<i>reflects the share</i>
yn seiliedig ar	<i>based on</i>
Etholaethau Senedd Ewrop	<i>European Parliamentary Constituencies</i>
a grëwyd	<i>which was/were created</i>
cynrychiolaeth gyfrannol	<i>proportional representation</i>
System Aelodau Ychwanegol	<i>Additional Member System</i>

Ffynonellau

Hanes Cymru – Llyfr Piced, gan J Graham Jones (Gwasg Prifysgol Cymru, 1994)
Llawlyfr y Cynulliad (Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

Cawson ni ein siomi ychydig ar y diwrnod oherwydd mai ni oedd yr unig grŵp i gystadlu. Ond enillon ni'r wobwr gyntaf o chwe deg o bunnoedd – sy'n rheswm arall dros gystadlu – mae'n gyfle i ennill arian i'ch cangen leol.

Mae'n gyfle da hefyd i dreulio amser ar faes yr Eisteddfod. Doedd mynd i'r Eisteddfod ddim yn rhan o fy nghefndir i ond bellach dw i'n mwynhau mynd i wahanol rannau o Gymru i gwrrd â phobl mewn awyrgylch Cymraeg, a dod i nabod mwy ar y diwylliant Cymraeg.

Mae bod yn ddsygrwr/aig yn gallu bod yn anodd weithiau, felly, mae gwneud rhywbeth mewn grŵp yn gallu helpu gydag ennill hyder, ac mae'n fodd i ddsygrwr roi cefnogaeth i'n gilydd.

EWCH CHI I'R EISTEDDFOD ELENİ – BYDD CROESO I CHI YM Mhabell y Dysgwyr, a bydd cyfle i chi weld dysgwyr eraill yn cystadlu cyn i chi roi cynnig arni'r flwyddyn nesaf.

Ann-marie Hinde

YSGOLORIAETH DAN LYNN JAMES 2003 DAN LYNN JAMES SCHOLARSHIP 2003

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar dderbyn ysgoloriaeth eleni.

Congratulations to the following on receiving a scholarship this year.

Claire Trammer: £100

Mae Claire yn byw yn Rhuthun. Mae hi wedi sefydlu cwmni theatr cymunedol dwyieithog, sef Cwmni Theatr Indigo. 'Pwrpas Cwmni Theatr Indigo yw darparu profiad theatr i bobl gan bontio'r bwch rhwng yr iaith Gymraeg a Saesneg yn ein cymdeithas ddwyieithog ni' dywedodd Claire. Mae hi'n dysgu drama i blant a phobl ifanc. Mae hi eisau mynd ar gwrs dwys i wella ei Chymraeg er mwyn iddi allu darllen dramâu heb ddefnyddio geiriadur, ac i hwyluso'r gwaith o feirniadu yn yr Eisteddfod. Hefyd hoffai hi hyfforddi plant a phobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg, a pherfformio dramâu yn y gymuned yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. 'Mae 'na alwad mawr am hyfforddwyr medrus mewn drama a dawns yn yr ardal yma, felly dw i'n gweld hwn fel cyfle *datblygiad proffesiynol*, meddai hi.



Keith a Margaret Teare: £50

Mae Keith a Margaret yn aelodau gweithgar o Gangen Cyd Llanidloes. Ar ôl symud i Gymru o Ynys Mull yn yr Alban aethon nhw ati i ddysgu Cymraeg gan fod eu cymdogion yn siarad Cymraeg. Maen nhw wedi trefnu llawer o deithiau cerdded i ddysgwyr a Chymry Cymraeg. Maen nhw am fynd ar gwrs glowy Cymraeg dros yr haf. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn mynd ar un o'r teithiau cerdded, mae croeso i chi gysylltu â nhw ar 01650 521843 neu e-bost: kandmteare@supanet.com



Julian Lloyd: £50

Cymro yw Julian, yn enedigol o Ferthyr Tudful. 'Dw i'n mynd i gyfarfodydd Cyd yn Nhafarn y Cwps yn Aberystwyth yn gyson, a dw i wedi bod yn helpu trefnu nhw yn ddiweddar', meddai Julian. Mae e'n astudio ar gyfer gradd mewn Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth. Bydd yn defnyddio'r ysgoloriaeth i dalu tuag at fynd ar gwrs 8 wythnos dros yr haf ym Llanbedr Pont Steffan i wella ei Gymraeg cyn mynd ymlaen i astudio modiwlau Cymraeg i siaradwyr ail-iaith yn yr ail flwyddyn yn y Brifysgol. 'Ar ôl i mi orffen fy ngradd dw i eisau gweithio gyda'r iaith – naill ai ar ymchwil academaidd, gwaith cyfieithu neu ddysgu Cymraeg i Oedolion', meddai fe.



Annette O'Donovan: £50

Mae Annette yn byw ger Pencader, Sir Gaerfyrddin. Mae hi'n dysgu Cymraeg ers 3 blynedd. Mae hi'n mynd i weithgareddau Cyd yn Llandysul. Mae tri o blant gyda hi sy'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol. Mae'r hynaf ar un canol eisoes yn rhugl. Mae hi eisau mynd ar gwrs 4 diwrnod ym mis Gorffennaf i wella ei Chymraeg er mwyn helpu ei phlant. Mae hi hefyd am ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gymuned ac yn bwriadu sefyll arholiad TGAU Cymraeg i Oedolion yn 2004.



CRYNO-DDYSG Y CYMRY:

DIARHEBION AC IDIOMAU I DDYSGWYR

Cennard Davies (Gwasg Prifysgol Cymru, £5.99)

Adolygiad gan Mary Burdett-Jones

Mae teitl y llyfr hwn yn cynnwys y gair mwys cryno-ddysg (*compact learning*), lle mae'r awdur yn chwarae ar y gair cryno-ddisg (*compact disc*). Pethau pwysig i ddysgwyr profiadol yw diarhebion, oherwydd bod eu defnyddio'n gywir wrth siarad yn dangos bod gennych afael gadarn ar yr iaith. I'r Cymry Cymraeg mae diarhebion yn cyfoethogi'r iaith. Yn wir, rwy'n meddwl bod y Cymry Cymraeg yn defnyddio mwy o ddiarhebion wrth siarad nag y byddai'r Saeson. Nid wyf i fel Saesnes, er enghraifft, yn gyfarwydd ag unrhyw ddiarheb Saesneg sy'n cyfateb i 'Angel pen ffordd, diawl pen pentan' (*An angel on the road and a devil on the hearth*). Esboniad Cennard Davies ar hwn yw 'Dydy pobl ddim bob amser fel y maent yn ymddangos yn gyhoeddus'. Mae'n rhoi tameraid o ddeialog i ddangos y ddiarheb yn cael ei defnyddio mewn sgwrs.

Gallai'r awdur fod wedi rhoi'r ddiarheb Saesneg gyfatebol yn achos 'Cyntaf i'r felin gaiff falu', sef 'First come, first served'. Yr un cysyniad sydd yn y ddwy ddiarheb.

Mae diarhebion yn chwarae than mor bwysig yn yr iaith lafar fel nad oes angen bob amser i ddweud yr holl ddiarheb i bobl weld y pwynt. Er enghraifft, 'Diwedd y gân ...'. 'Diwedd y gân yw'r geiniog' yw'r ddiarheb yn llawn, 'At the end of the song comes the penny (i.e. payment)', 'Mae pris i'w dalu am bob peth a gewch chi'.

Gan fod diarhebion mor bwysig yn yr iaith Gymraeg dylai dysgwyr brynu ac astudio'r llyfr hwn, sydd hefyd yn cynnwys rhestr o idiomau sy'n cael eu defnyddio yn y deialogau, a geirfa ar y diwedd. Bydd yn ddefnyddiol hefyd i Gymry Cymraeg sydd am loywi eu hiaith, ac wrth gwrs i diwtoriaid.

GEIRFA

dihareb (diarhebion)	<i>proverb(s)</i>	profiadol	<i>experienced</i>
gair mwys	<i>pun</i>	cyfoethogi	<i>to enrich</i>
gafael gadarn	<i>a strong grasp</i>	cyfateb	<i>to correspond</i>
cyfarwydd	<i>familiar</i>	sgwrs	<i>conversation</i>
yn gyhoeddus	<i>in public</i>	yn achos	<i>in the case of</i>
cyfatebol	<i>corresponding</i>	iaith lafar	<i>spoken language</i>
cysyniad	<i>concept</i>	gloywi	<i>polish</i>
cynnwys	<i>to contain</i>		

Tri Chynnig i Blodwen Jones!

TRI CHYNNIG I BLODWEN JONES

BETHAN GWANAS

£3.50 yr un

NOFELAU NAWR

GOMER

Llandysul, Ceredigion SA44 4SL

FFôn: 01599 362371
Ffacs: 01599 363758
e-bost: main@gomer.co.uk

BYD BETHAN

Bethan Gwanas (Gwasg Gomer, £5.95)

Adolygiad gan Mary Burdett-Jones

Rwy'n ffan mawr o waith Bethan Gwanas oherwydd bod ei llyfrau yn gwneud i mi chwerthin. Sgrifennodd hi'r erthyglau sydd yn y gyfrol hon yn wreiddiol ar gyfer y papur newydd *Yr Herald*. Gan ei bod hi'n sgrifennu'n syml mae tiwtoriaid wedi bod yn defnyddio ei herthyglau yn y dosbarth. Os bydd dyn yn chwerthin, mae'n ymlacio ac yn gallu dysgu'n haws, rwy'n meddwl. Syniad da yw eu cyhoeddi mewn cyfrol. Piti nad oes geirfa i helpu'r dysgwyr.

Iaith lafar y Gogledd a geir yn y llyfr. Un gair nad oeddwn i yn gyfarwydd ag ef yw 'ballu', fel yn 'benthyc protractors a ballu'. Ystyr 'a ballu' yw 'and so on'. Mae'n dod o 'rhywbath (ffurf ogleddol ar 'rhywbeth') felly', y mae'n debyg

Anodd dewis pa ysgrifau i dynnu sylw atynt yn arbennig, maen nhw i gyd yn ddiffr. Trafodir yr enw ar ddysgwyr y Gymraeg 'Cymry o ddewis' yn rhif 26, a dywed Bethan ei bod hi, siaradwr iaith-gyntaf, yn dal i ddysgu'r iaith ei hunan. Yn rhif 15 mae Bethan yn dangos ei chydymdeimlad â dysgwyr wrth drafod llyfr Pamela Petro, *Travels in an old tongue*.

Dylai dysgwyr ddarllen rhif 5 am y ffordd y mae profiad o'r Eisteddfod Genedlaethol yn newid wrth i chi fynd yn hŷn. Ysgrif werth ei darllen yw ei phortread o'i thaid, a dywed ar y diwedd y dylai pobl sydd yn dal i fod â nain a thaid siarad â nhw am eu hanes.

Yn rhif 30 sonia am y ffordd y mae diwrnod cneifio yn y Gwanas, y fferm lle cafodd ei magu, wedi newid, llai o bobl yn helpu ei gilydd, a llai o achlysur cyfdeithasol. Yn 13 trafoda pwnic llosg mewn fudo i'r ardaloedd Cymraeg.

Cyfrol hynod o ddiffr a diddorol i Gymry Cymraeg a dysgwyr fel ei gilydd.

GEIRFA

syml	<i>simple</i>	cydymdeimlad	<i>sympathy</i>
cyfarwydd	<i>familiar</i>	cneifio	<i>to shear (sheep)</i>
trafod	<i>to discuss</i>	pwnic llosg	<i>burning issue</i>
hŷn	<i>older</i>	mewn fudo	<i>immigration</i>
ymlacio	<i>to relax</i>	diffr	<i>amusing</i>
yn haws	<i>more easily</i>	fel ei gilydd	<i>both</i>

GLYWOCH CHI ERIOED AM 'JONESVILLE' YNG NGHYMRU?

Ar y 25ed o Chwefror fe ges i e-bost gyda'r neges 'Wyt ti eisiau mynd i'r BBC ar gyfer lansiad gwefan newydd' oddi wrth Padi Phillips, Swyddog Cyswllt Cyd. Do'n i ddim yn deall ystyr y gair 'lansiad' (dysgwyr ydw i) ond dywedais i 'Ydw' wrth gwrs. Am 2 o'r gloch y prynawn y diwrnod wedyn, darganfûm i ystyr y gair 'lansiad! Fe es i i bencadlys y BBC yn Llandaf, Caerdydd, gyda Padi, i weld eu gwefan newydd. Roedd cyflwyniad gan Angharad Gwyn, sy'n gweithio yn Adran Addysg y BBC.

GWEFAN NEWYDD I DDYSGYWR YR IAITH GYMRAEG

Mae llawer o bethau diddorol ar y wefan, er enghraifft 'Jonesville' h.y. pentre 'virtual reality'. Dych chi'n gallu mynd i'r siop, swyddfa, ysbty, banc, garej, ayyb, siarad gyda phobl y pentre am bethau cyffredin a gwrandao arnynt. Dych chi'n gallu recordio eich llais, a'i chwarae yn ôl. Mae Jonesville yn dda i ymarfer eich Gymraeg ar eich pen eich hunain. Mae pedair lefel yn Jonesville, o ddechreuwr pur i'r rhai brofiadol.

Mae hi'n bosib llwytho ffeil manwl ar ramadeg Cymraeg i lawr a'i hargraffu. Mae cywirydd sillafu a threigladau ar y wefan hefyd, heb anghofio am y bwrdd negeseuon, lle mae'n bosib gadael neges i ffrind. Mae'r BBC hefyd yn cynnig gwasanaeth testun, sef, 'text' i'ch ffôn symudol. Mae'n nhw'n anfon neges yn y Gymraeg i chi dair gwaith yr wythnos, defnyddiol iawn os nad oes dim cyfrifiaduwr gyda chi. I'r rhai ohonoch chi'n sy'n Gristnogion, mae yna gysylltiad ('link') i'r Testament Newydd yn y Gymraeg. Mae'n bosib ffeindio llawer o wybodaeth am Gymru trwy ddilyn y 'links' i wefannau eraill.

Felly, os oes diddordeb gennych chi yng Nghymru neu'r Gymraeg, ewch chi i www.bbc.co.uk/learnwelsh


Pob Hwyl.

John Dymond, Caerdydd

GEIRFA

neges, (lluosog) negeseuon	<i>messages(s)</i>	lansiad	<i>launch</i>
gwefan	<i>website</i>	darganfûm (1 un. gorff.)	<i>discovered</i>
pencadlys	<i>headquarters</i>	cyflwyniad	<i>presentation</i>
profiadol	<i>experienced</i>	cywirydd sillafu	<i>spellchecker</i>
treigladau	<i>mutations</i>	symudol	<i>mobile</i>

Gweithgareddau Cyd



Erwyd Howells
Twmpath Cangen Cyd Aberystwyth

Mae croeso i chi anfon gwybodaeth a lluniau i'w cynnwys yn y *Cadwyn* nesa.

You are welcome to send information and photographs to include in the next Cadwyn.



Cyd Harlech

Cyd Llanelli yn mwynhau paned yn Sain Ffagan, Caerdydd



NEWYDD! Cyfarfod Cymraeg yn yr Almaen!

Cewch hwyl fawr!

Grŵp Dysgwyr a Siaradwyr Cymraeg yr Almaen

Penwythnos Hydref 2003 Dydd Gwener, 17 Hydref – Dydd Sul, 19 Hydref

Halle (Saale)

cymraeg_tramor@hotmail.com

RHAGLEN

Nos Wener Croeso Dr. Britta Schulze-Thulin, Halle (Saale)
Cyfarfod anffurfiol mewn tafarn

Sadwrn		Sul	
9:00	Rhagarweiniad	10:00	Crwydro i Wettin neu Seeburg (10 m)
9:30	Coffi/Te	14:00	Cinio yn Wettin neu Hohnstedt
10:00	Tro o gwmpas Halle	15:30	Coffi/Te yn Wettin neu Seeburg
12:00	Cinio	17:00	Yn ôl i Halle gyda bws cyhoeddus
14:00	Iaith bws Merseburg – Naumburg – Freyburg	20:00	Noson dafarn yn Halle
16:00	Coffi/Te ar y daith		
20:00	Cwis Cymraeg		

Y ffi cofrestru ar gyfer y penwythnos yw 5 euro am y tro o gwmpas Halle; bydd cost o tua 10 euro am y daith bws i Merseburg/Naumburg/Freyburg. Byddem yn ddiolchgar petaech yn cofrestru cyn gynted â phosib, ond yn bendant cyn 6 Hydref, 2003.

Rydym yn agored i awgrymiadau!

Sut ydych chi'n mynnu dod? a) mewn car b) gyda'r trên c) hedfan


HALLE (SAALE)

HALLE  Y Dref



Hanes diddorol

Mae Halle, sy'n fil o flynyddodd oed, yn un o drefydd hynaf canolbarth yr Almaen. Daeth y ddinas yn llewyrchus mewn byr amser ac o'r herwydd gelwir yr ardal o'i chwmpas yn ganolbarth yr aur gwyn. O dan lle y gwelir marchnad y dref heddiw (yr Hallmarkt) mae olion o gloddio am halen. Un o brif nodweddion eraill Halle yw ei bod hi'n ddinas addysgiadol ac academiaidd ac mae prifysgol yr ardal yn y dref ers 1694. Enillodd Sefydliadau August Hermann Francke fyd-enwogrwydd am eu cysyniadau mewn addysg ar gyfer plant o bob dosbarth o'r gymdeithas. Mae'r cyfaddilad hwn yn cynnwys hanner cant o adeiladau. Ymysg y rhain mae'r prif dŷ; adeilad o waliau ffrâm goed Almaenaidd gyda chwe llawr can medr o hyd. Mae'r adeilad yma o dan adnewyddiad ers 1990. Mae Giebichenstein (y gaer hynaf ar yr afon Saale) yn rhagori yn y celfyddydau, a lleolir ysgol gelf o fri yma.



Castell Moritzburg, Castellauddol yr Almaen
Institut Olaf, Castellauddol Halle



Atyniad arall i'r dref, nid yn unig yn ystod yr ŵyl Gerddoriaeth flynyddol, yw **Man Geni Händel**.

Tref y pum tŵr

Yng nghanol y dref ar sgwâr y farchnad (**Markt-platz**) lleolir yr eglwys (**Marktkirche**) i'n gwagedd annwyl ni, a adeiladwyd mewn arddull Gothig hwyr. Pregethodd Martin Luther yma nes iddo farw yn 1546. Gwelir yma hefyd y Tŵr Coch (**Der Rote Turm**) a osodwyd i breswylwyr y dref fel symbol o ymwybyddiaeth drefol, yn ogystal â cherflun efydd o'r

cyfansoddwr G. F. Händel, a anwyd yma yn 1685. Mae mynwent Dadeni'r dref o ddi-ddordeb i ymwelwyr hefyd. Mae'n unigryw gan mai hon yw'r unig enghraifft o arddull y campo santo i'r gogledd o'r Alpau. Bellach mae Halle yn frith o amgueddfeydd o safon ryngwladol, fel Oriol y **Moritzburg**, Amgueddfa Man Geni Händel, ac Amgueddfa Cyn-hanes yr Ardal.

Eglwys Gogleddol Halle (Darn)



Llyfrfafr Sefydliadau Francke

Y Tŵr Coch (Der Rote Turm) - clochdeln a sŵlledfeydd yn 1418-1518 ar sgwâr y farchnad.





Cynllun Gerddi Cenedlaethol

Gwen Hughes

Rwy'n siwr fod rhai ohonoch wedi gweld y llyfr melyn *The National Gardens Scheme*, sydd yn dod allan bob Chwefror, pris £5. Cynnwys y llyfr yma yw rhestr a disgrifiad o tua 3500 o erddi o bob math a phob maint ledled Cymru a Lloegr sydd yn agor i'r cyhoedd ar amser penodedig yn ystod y flwyddyn, gyda'r pwrpas o godi arian at nifer o elusennau.

Prifaf yw y rhan fwyaf ac maent yn agor am un diwrnod arbennig, ond mae rhai eraill yn agor drwy drefniant yn unig, a rhaid cysylltu â'r perchnogion i drefnu amser. Er enghraifft, mae fy ngardd i yn agored drwy fisoedd y gwanwyn a'r hydref am mai coed a llwyni yw fy mhrif ddi-ddordeb, ac mae'r ardd ar ei gorau pan mae'r Rhodedendrons a'r Azaleas yn eu blodau, ac wedyn pan mae lliwiau'r hydref a'r aeron amryliw ar y coed. Mae pris mynediad i rai o'r gerddi, ond blwch casglu sydd gan rai ohonom a phawb yn cyfrannu fel mae'n dewis. Y llynedd codwyd dros £2,000,000 a rhanwyd yr arian i gyd rhwng sawl elusen yn cynnwys Macmillan, Marie Curie, Crossroads, Help the Hospice, a sawl achos da arall. Rwy'n falch o gael dweud bod ein gerddi ni yng Ngheredigion wedi cyfranu £7,300 at y cyfanswm.

Daethom i fyw i Coetmor ddeuddeg mlynedd ar hugain yn ôl. Tŷ Fictorianaid yw, wedi ei godi tua 1890, ac mae'n sefyll mewn pum cyfer o dir tua chwe chan llath o ganol pentref Tal-y-bont, Ceredigion. Ffurfiol, traddodiadol yw'r ardd ffyrnt hefo coed celyn, coed yw, a dwy Araucaria araucana (*Monkey Puzzle*) fawr bob ochr i'r fynedfa. Ar ochr y tŷ mae tŷ gwyr hefo gwinwydden ffrwythlon iawn, ac yma mae y tomatos a'r ciwcymbrau yn tyfu'n flynyddol. Yn y cefn mae'r ardd lysiau, ond mae rhannau ohoni wedi ei phlannu hefo llwyni erbyn hyn, toes dim angen yr holl lysiau arnom ni ein dau. Pan oedd y plant yn fach roeddem bron yn hunangynhaliol. Roedd gennym anifeiliaid anwes di-ri ac ieir, hwyaid, gwyddau, ac aeth yr oen swci (llywaeth) yn braidd bach ymhen amser.

Dim ond ar ôl i'r plant adael y nyth y cymerais i wir ddi-ddordeb yn yr ardd a sylweddolais fod gennyf gymaint o dir a oedd yn mynd yn anniben a gwyllt. Yn raddol rydym wedi clirio a thocio, symud y ffin yn bellach sawl tro, gwneud llwybrau ac yn dal i blannu coed. Mae golygfa braf o'r rhan uchaf yr ardd yn edrych dros y pentref i fyny Cwm Leri i gyfeiriad Pumlumon.

Rwyf yn mwynhau cael ymwelwyr a'i hebrwng o amgylch yr ardd. Weithiau mae unigolion yn ffonio, tro arall mae cymdeithasau fel Merched y Wawr, neu Glwb Garddio, yn trefnu o flaen llaw i ddod am bawn neu gyda'r nos. Croeso i'ch darllenwyr ddod i weld yr ardd. Nid wyf yn addo y medraf enwi'r holl blanhigion yn Gymraeg ond gwnaf fy ngorau!

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â: www.ngs.org.uk

GEIRFA

amser penodedig	<i>set time</i>
elusennau	<i>charities</i>
drwy drefniant yn unig	<i>by appointment only</i>
perchnogion	<i>owners</i>
coed a llwyni	<i>trees and shrubs</i>
aeron amryliw	<i>various coloured berries</i>
blwch casglu	<i>collection box</i>
cyfrannu fel mae'n dewis	<i>contribute by choice</i>
falch o gael	<i>glad to have</i>
tua chwe chan llath	<i>about 600 yards</i>
ffurfiol	<i>formal</i>
traddodiadol	<i>traditional</i>
coed celyn	<i>holly trees</i>
coed yw	<i>yew trees</i>
gwinwydden ffrwythlon iawn	<i>very fruitful vines</i>
ciwcymbrau	<i>cucumbers</i>

hunangynhaliol	<i>self supporting</i>
di-ri	<i>innumerable</i>
oen swci (llywaeth)	<i>pet lamb</i>
yn braidd bach ymhen amser	<i>a small flock in time</i>
yn raddol	<i>gradually</i>
clirio a thocio	<i>clearing and pruning</i>
symud y ffin yn bellach	<i>moving the boundary further</i>
sawl tro	<i>several times</i>
hebrwng o amgylch	<i>show around/give a guided tour</i>
o flaen llaw	<i>in advance</i>
gwnaf fy ngorau	<i>I will do my best</i>

Prosiect 'Geiriadur Termâu Coedwigaeth'

Un rheswm personol i mi ddysgu Gymraeg ydy bod mewn sefyllfa i fedru cynnig darlithoedd coedwigaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydw i wrth fy modd efo pob math o goed a phlanhigion. A hefyd, wrth gwrs, rydw i'n gweithio fel darlithydd mewn coedwigaeth ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. Gan fod hybu'r iaith Gymraeg yn bwynt pwysig polisi y Brifysgol, rydw i'n meddwl mai fy nyletswydd yw cefnogi'r polisi yma. Ond pan geisais i brynu geiriadur neu o leia rywbeth fel rhestr geiriau termau ym mis Mehefin 2002 mi wnes i ddarganfod nad oes y ffasiwn beth ar y farchnad o gwbl. Wel, roeddwn i'n meddwl am gysylltu efo fy nghydweithwyr o'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru, gan fod rhaid iddyn nhw gyfieithu pob un ddogfen bwysig i'r Gymraeg. Mi wnes i anfon e-bost i Huw Davies o'r Swyddfa Genedlaethol Comisiwn Coedwigaeth yn Aberystwyth. Mi wnaeth o basio fy ymholiad ymlaen at Huw Evans sydd yn cadeirio pwyllgor dwyieithrwydd y Comisiwn Coedwigaeth. Ar yr un pryd roeddwn i'n siarad efo fy nghydweithiwr Dr Ioan ap Dewi sydd yn Gymro brodorol a sydd yn gweithio yn yr un adran â fi. Mae Ioan yn ddarlithydd mewn amaethyddiaeth, ond er gwaethaf hynny roedd o'n fodlon cefnogi fy syniad. Mi wnaeth Ioan a fi gysylltu efo'r Comisiwn Coedwigaeth a Chanolfan Bedwyr (PCB) er mwyn sefydlu'r prosiect. Fel mae'n ddigwydd does gan y Comisiwn Coedwigaeth ddim geiriadur termau coedwigaeth chwaith. Ond mi ddywedodd Huw Evans fod gan y Comisiwn ddi-ddordeb mawr mewn sefydlu rhestr geiriau. Roeddwn i hefyd mewn cysylltiad efo un ymgynghorydd coedwigaeth sydd yn gweithio i gwmni SelectFor yng Nghanolbarth Cymru ac sydd yn Gymro Cymraeg o'r enw Huw Denman. Roedd o'n dangos diddordeb hefyd yn y peth. Doedd gynnon ni ddim llawer o gyfle i weithio ar sefydlu'r prosiect ym mis Awst oherwydd y gwyliau blynyddol. Felly cwsum ein cyfarfod cyntaf ar 13 Medi 2002. Yn gyntaf roedd Ioan ap Dewi, Huw Evans a fi yn trafod elfennau pwysig y geiriadur a sut i hyrwyddo'r prosiect. Wedyn aeth y tri ohonom at Delyth Prys, sydd yn gweithio i Ganolfan Bedwyr, er mwyn siarad am yr ochr dechnegol. Mae Delyth Prys wedi cynhyrchu llawer o eiriaduron eraill yn y gorffennol a mae hi'n gweithio ar safoni termau. Felly mae Delyth yn brofiadol iawn yn y maes yma ac yn bartner proffesiynol delfrydol. Yn ystod y cyfarfod mi benderfynon ni fynd ymlaen efo'r camau canlynol:

- Creu panel golygyddol
- Cael cyfarfod o'r panel i benderfynu ar derfynau y gwaith
- Penderfynu strwythur y gronfa ddata
- Hel rhestr o dermau Saesneg o eiriaduron, taflenni a llyfrau perthnasol
- Golygu/cymharu gyda rhestrau eraill sydd gan Ganolfan Bedwyr
- Golygu technegol gan aelodau'r panel
- Cyfarfod o'r panel i drafod y gwaith gyda phwyslais ar nodi unrhyw fylchau amlwg
- Ailadrodd camau 4-6 os oes angen i lenwi bylchau
- Golygu terfynol
- Paratoi fersiwn cyfrifiadurol o'r geiriadur at ddefnydd 'mewnol'
- Paratoi fersiwn 'papur' o'r geiriadur yn barod i'w gyhoeddi
- Cyhoeddi'r geiriadur ar ffurf llyfr

Achos bod yna ansicrwydd hyd yn oed ynglŷn â thermau coedwigaeth yn Saesneg bydd angen cael panel golygyddol efo arbenigwyr coedwigaeth a Delyth Prys. Mae Huw Denman yn medru bod yn un o aelodau'r pwyllgor. Yn amlwg mae'n bwysig iawn cytuno ar y pynciau pwysica mewn coedwigaeth ar y dechrau gan ei bod hi'n amhosib creu geiriadur sydd yn ymestyn dros yr holl faes. Mae gan Ganolfan Bedwyr brofiad o ddefnyddio cronfa ddata sy'n ddigon hyblyg i

gynhyrchu geiriadur ar-lein yn ogystal â geiriadur ar gyfer y we byd-eang a geiriadur llyfr. Anfonodd Delyth brisiau i ni am bob cam o'r rhestr uchod. Rŵan mae Huw Evans yn ceisio darganfod faint mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn fodlon ei ariannu.

Arne Pommerening

GEIRFA


sbrwsen	<i>spruce (tree)</i>	cronfa ddata	<i>data base</i>
geiriadur termau	<i>dictionary of terms</i>	ar-lein	<i>on-line</i>
darlith	<i>lecture</i>	coedwigaeth	<i>forestry</i>
bod wrth fy modd	<i>to take delight in</i>	hybu	<i>promote</i>
dylatswydd	<i>duty</i>	cefnogi	<i>support</i>
y ffasiwn beth	<i>such a thing</i>	marchnad	<i>market</i>
cysylltu (â)	<i>to get in touch with</i>	cydweithiwr	<i>colleague</i>
cyfieithu	<i>to translate</i>	cadeirio	<i>to chair</i>
dogfen	<i>document</i>	dwyieithrwydd	<i>bilingualism</i>
ymholiad	<i>query</i>	amaethyddiaeth	<i>agriculture</i>
pwylgor	<i>committee</i>	canolfan	<i>centre</i>
brodorol	<i>native</i>	ymgyngorydd	<i>consultant</i>
syniad	<i>idea</i>	hyrwyddo	<i>to advance, promote</i>
sefydlu	<i>establish</i>	safoni	<i>to standardize</i>
elfen	<i>element</i>	cam	<i>step</i>
technegol	<i>technical</i>	terfyn	<i>limit</i>
delfrydol	<i>ideal</i>	cymharu	<i>to compare</i>
golygyddol	<i>editorial</i>	bwlch	<i>gap</i>
strwythur	<i>structure</i>	terfynol	<i>final</i>
perthynol	<i>relevant</i>	cyhoeddi	<i>to publish</i>
aelod	<i>member</i>	cytuno	<i>to agree</i>
ailadrodd	<i>to repeat</i>	maes	<i>field</i>
mewnol	<i>internal</i>	hyblyg	<i>flexible</i>
arbenigwr	<i>expert</i>	ariannu	<i>to fund</i>
ymestyn	<i>to extend</i>		

e.bost: cyd@aber.ac.uk



Cyd y Trallwng

Pethau Plant newydd sbon!



Astruaethau Wili Cwac Cwac

Stroeon cyffrous, canu, gormu a phrosau i blant 3-7 oed.
CD-ROM £19.99

Dic a Del a Delyth Ar y ffordd

Hwyl a stor gyda'r adletedwyt llawn trawll!
Ffôn £9.99

Dydd Gwyl Hwyl

Astruaethau corddol gyda chymierodau Planed Plant Bach.
Ffôn £11.99

Hwyl wrth gamu

Mynediad am Odin yn canu 200 o ganeuon i'r plant leol -
Hong, Hong, Bonhectol rowr o'r Sain, Cad! He a rwy
CD & LLYWTH £12.99

Cyran-i
Sali Mali - Sneur -
Dic a Del a Delyth

I'r rhinw
peldwch ag anghofio cyfres CD-R
TeachWel! Welsh, Irish, Cornish,
Breton, German a Spanish

www.sain.wales.com
Tel: 01223 82111 Fax: 01223 82111
e-mail: info@sain.wales.com

CADWYN AR WEFAN CYD
GELLIR DARLLEN CADWYN 44 AR www.aber.ac.uk/cyd

CADWYN ON CYD WEBSITE
CADWYN 44 CAN BE READ ON www.aber.ac.uk/cyd

CEFNOGWCH CYD SUPPORT CYD

Enw/Name _____
 Cyfeiriad/Address _____

 Cód Post/Post Code _____
 Rhif ffôn/Tel no. _____
 e-bost/e-mail _____
 Cangen/Branch (os oes un/if relevant) _____

Tâl cefnogi blwyddyn/annual supporter's fee:
 £7 a £2 i fyfyrwyr/students, pensynwyr/pensioners a'r di-waith/unemployed
Tâl/fee _____

Cyfraniad/Contribution £ _____

Tâl Cefnogi Corfforaethol/Corporate supporters' fee:
 £20 i fudiadau gwirfoddol/for voluntary organisations and charities
 Dim llai na! not less than £50 i gyrff cyhoeddus a phreifat/for public and private bodies.

Tâl cefnogi am oes/Individual life supporter's fee: £100

Cedwir y wybodaeth uchod ar gronfa ddata yn Swyddfa CYD, Aberystwyth
 The above information will be kept on a data base in CYD's office in Aberystwyth

Os nad oes arnoch eisiau i'ch enw, cyfeiriad a rhif ffôn gael eu rhoi i gefnogwyr eraill, ticwch y blwch yma os gwelwch yn dda.
 If you do **not** wish your name, address and telephone number to be given to other supporters, please tick this box.

Hoffwn dderbyn gwybodaeth am y gweithgareddau canlynol:
 I would like to receive information about the following activities:

- | | |
|--|---|
| <input type="checkbox"/> Enw'r gangen agosaf | <input type="checkbox"/> The name of the nearest branch |
| <input type="checkbox"/> Cyfeillion llythyr | <input type="checkbox"/> Penpals |
| <input type="checkbox"/> Cyfeillion ffôn | <input type="checkbox"/> Phone pals |
| <input type="checkbox"/> e-byti | <input type="checkbox"/> e-m@tes |
| <input type="checkbox"/> Ysgoloriaeth Dan Lynn James (£250 y flwyddyn) | <input type="checkbox"/> The Dan Lynn James Scholarship (£250 per year) |

Rhodd Gymorth/Gift Aid £

Rwy'n datgan fy mod yn talu rhagor o dreth incwm a/neu dreth enillion cyfalaf na'r dreth y bydd Cyd yn adennill ar fy rhodd/ngyfraniad/tâl cefnogi, sef 28c ym mhob £1 a roddir ar hyn o bryd, a fy mod yn fodlon i Cyd drin y rhodd uchod a phob rhodd yn y dyfodol fel rhodd gymorth.

I declare that I pay income tax and/or capital gains tax at least equal to the tax that Cyd claims on my donations/supporter's fee in the tax year (currently 28p for each £1 you give), and I am willing for Cyd to treat the above donation and all donations in the future as gift aid.

Llofnod/Signature _____



Dychwelwch i/Return to:
 Cyd, 10 Maes Lowri, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AU
 Ffôn/Ffacs: 01970 622143
 Rhif Elusen/Charity No: 518371

Cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi gyda
Meic Stevens ac Angharad Bizby

Trefnwyd gan Cyd a Menter Maldwyn

Noson Cawl a Chân
Cyd Cilycwm



Gŵyl Iaith Y Bala
Trefnwyd gan Antur Penllyn